PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

# Y CYNGOR

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 13:00 ar 7 HYDREF 2025, yn y Ganolfan Ddeialog, y Ganolfan Ddelweddu.**

<u>Yn bresennol</u>: Meri Huws, <u>Cadeirydd y Cyngor</u> (<u>Cadeirydd</u>); Yr Athro Jon Timmis, <u>Is-Ganghellor</u>; Dr Paul Bevan; Yr Athro Sarah Davies; Kylie Evans; Nanw Maelor, <u>Swyddog Diwylliant Cymru a Llywydd UMCA</u>; Yr Athro Angela Hatton, <u>Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi)</u>; Dr Aloysius Igboekwu (nid ar gyfer eitem 12 – y Gofrestr Risg Gorfforaethol); Millie Hackett, <u>Llywydd Undeb Aberystwyth;</u> Dan Richards; Arwel Thomas; Mark Tweed; Jane Usherwood; Claire Vaughan; a Yusuf Ibrahim.

Yn gweinyddu: Simon Crick, Prif Swyddog Ariannol; Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Sharon Lilley, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol; Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg; Steve Thomas, Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Materion Allanol; Helen Eustance, Pennaeth Cynllunio.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Kate Eden a Rhuanedd Richards.

Cymeradwywyd gan y Cyngor 24/11/2025

## 1. MATERION A GODWYD GAN Y CADEIRYDD

1.1 Adroddodd y Cadeirydd fod Cod Llywodraethu Addysg Uwch Pwyllgor Cadeiryddion y Prifysgolion (CUC), y mae'r Brifysgol wedi tanysgrifio iddo, yn cael ei adolygu. Er mai'r bwriad ar y dechrau oedd peidio â chynnwys Cymru na'r Alban, mae hyn bellach wedi dod yn fenter ledled y DU. Mae Price Waterhouse Coopers (PWC) wedi cael eu comisiynu i gynnal yr adolygiad. Cytunodd yr Aelodau y dylai'r cwestiynau gael eu hystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu a Diwylliant i ddechrau, ac yna gan y Cyngor. Nododd yr Aelodau y gwaith a wnaed eisoes o ganlyniad i adolygiad Camm, a chadarnhaodd y Cadeirydd fod gofyn i Ysgrifenyddion y Brifysgol adolygu'r gwaith hwn cyn yr ymgynghoriad.

1.2 Adroddodd y Cadeirydd ar y cyfarfod diweddar gyda'r undebau llafur. Mae hwn bellach yn ddigwyddiad blynyddol, gyda'r posibilrwydd o'i gynyddu i ddwywaith y flwyddyn. Heriau cyfathrebu oedd neges allweddol y cyfarfod. Croesawodd yr undebau llafur y tryloywder a'r gonestrwydd a ddangoswyd gan Weithrediaeth y Brifysgol. Perthynas ar fodel partneriaeth yw hon, sy'n unigryw yng Nghymru ac mae'n gweithio'n dda.

## 2. GWRTHDARO BUDDIANNAU

Nodwyd mai Millie Hacket yw Cadeirydd Bwrdd Ymddiriedolwyr Undeb Aber, sy'n cael ei ariannu'n rhannol gan y Brifysgol. Nodwyd hefyd bod Nanw Maelor yn Ymddiriedolwr ar Fwrdd Ymddiriedolwyr Undeb Aber.

Nodwyd mai Jane Usherwood yw enwebai y Cyngor ar fwrdd ymddiriedolwyr CPAPA, Cynllun Pensiwn ac Aswiriant Prifysgol Aberystwyth.

Nodwyd mai Paul Bevan yw Cadeirydd Cymwysterau Cymru ac felly mae mewn sefyllfa sy'n gwrthdaro â'r darn yn adroddiad yr Is-Ganghellor sy'n ymwneud â'r TGAU newydd, ac na fydd yn cymryd rhan mewn unrhyw drafodaeth ynglŷn â hyn, pe bai'n codi.

## 3. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 07 Gorffennaf 2025 (COU2526-002).

**PENDERFYNWYD**

Nododd yr Aelodau y dylid cywiro'r dyddiad cychwyn ar gyfer Fran Carey i 29 Medi.

Dylid adolygu'r cofnodion ynghylch recriwtio aelodau'r Cyngor a'r gofrestr risgiau corfforaethol i sicrhau bod y drafodaeth lawn yn cael ei hadlewyrchu [**GWEITHRED**: Yr Adran Llywodraethu]

## 4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Cyngor, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (COU2526-003).

NODWYD

1. Yn dilyn y drafodaeth yng nghyfarfod blaenorol y Cyngor, cadarnhaodd Ysgrifennydd y Brifysgol mai Kylie Evans bellach yw'r aelod staff anacademaidd ar is-bwyllgorau'r Cyngor.
2. Nododd Ysgrifennydd y Brifysgol y bydd Dan Richards yn parhau fel aelod trawsbynciol y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad (A&Ph) a'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (AR&S), gan gydnabod yr ymrwymiad amser sylweddol gan Arwel Thomas yn ei ymwneud â'r Hen Goleg.
3. Rhoddwyd diweddariad i'r aelodau ar werthu safle Llanbadarn.
4. Rhoddwyd diweddariad i'r aelodau ar y cynnydd a wnaed yn y broses o benodi aelodau newydd i'r Cyngor a'r is-bwyllgorau.
5. Nododd yr aelodau'r diweddariadau am y camau gweithredu agored a chaeedig.

## 5. GOHEBIAETH

1. <u>Canlyniadau ACF</u>

   DERBYNIWYD

Cymeradwywyd gan y Cyngor 24/11/2025

Llythyr gan James Owen, Prif Weithredwr Medr (COU2526-004), yn cydnabod perfformiad da parhaus y Brifysgol yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (ACF) ac yn gofyn am gynllun gweithredu mewn ymateb i'r un canlyniad sy'n amlwg yn is na'r meincnod.

NODWYD

Nododd yr aelodau yr ohebiaeth a holi ynghylch y dyddiad cau ar gyfer rhoi ymateb i Medr. Cadarnhaodd y swyddogion fod estyniad wedi'i roi tan 22 Hydref, ac y byddai'r ymateb ar y cyd oddi wrth Undeb Aber a'r Brifysgol yn cael ei rannu gyda'r Cyngor.

## 6. PENDERFYNIADAU A WNAED RHWNG CYFARFODYDD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU2526-013).

NODWYD

Manylai'r adroddiad ar yr adegau ers cyfarfod diwethaf y Cyngor y cafodd materion eu cymeradwyo gan y Cadeirydd ar ran y Cyngor, sef gwerthu Maes Elwyn, Morfa Mawr, a diweddaru'r cyfamodau bancio.

## 7. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Athro Jon Timmis, Is-Ganghellor (COU2526-005).

NODWYD

1. Roedd tair prif ran i'r adroddiad: adroddiad yn amlygu'r prif bwyntiau; adroddiad ar ddenu myfyrwyr a chynllunio; ac adroddiad ynglŷn â chyfathrebu.

2. Rhoddwyd diweddariad i'r aelodau ar ddenu myfyrwyr. Ar y cyfan, rydym mewn lle da o ran ein sefyllfa denu myfyrwyr. Rydym yn hyderus y bydd niferoedd yr israddedigion cartref yn cyrraedd y targed diwygiedig yn y gyllideb. Mae niferoedd yr ôl-raddedigion a addysgir gartref yn siomedig ond bydd y cynnydd rydym yn ei weld mewn mannau eraill yn gwneud iawn am hynny o safbwynt ariannol. Nodwyd ein bod yn dibynnu'n fawr ar fyfyrwyr sy'n parhau i astudio ar gyrsiau Meistr, ac mae costau byw yn broblem. Cafodd y newidiadau i'r ffordd y gweinyddir cyllid ôl-raddedig yng Nghymru effaith y llynedd ac eleni. Mae'r myfyrwyr hynny nad ydynt yn dechrau astudiaethau ôl-raddedig ar unwaith yn tueddu i astudio'n nes adref, ac nid oes gan Aberystwyth boblogaeth sylweddol o'n cwmpas yn ddaearyddol. Wedi dyddiad y cyfrifiad sef 1 Tachwedd, bydd swyddogion Cynllunio a Chyllid yn gweithio trwy'r niferoedd yn fanwl.

3. Cynigiodd yr aelodau eu llongyfarchiadau ar ddyfarnu'r brifysgol yn Brifysgol y Flwyddyn am Gynaliadwyedd, a nodwyd bod hyn, ynghyd â phrofiad y myfyrwyr, yn nodwedd wahaniaethol arall rhyngom â'n cystadleuwyr, yn ogystal â bod yn atyniad i weithwyr y dyfodol. Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch ynni adnewyddadwy ac a oedd twf i'w ddisgwyl, o ystyried lefel y buddsoddiad. Cynhyrchir 25% o'r trydan ar gyfer y campws ar hyn o bryd a byddai angen buddsoddiad sylweddol i symud hyd yn oed i 30% o ynni

Cymeradwywyd gan y Cyngor 24/11/2025

adnewyddadwy.  Mae hyn yn cysylltu â'r targed sero net, sy'n heriol, ond mae'n bwysig cynnal yr uchelgais honno.  Bydd angen buddsoddiad allanol er mwyn gwella ymhellach. Mae gwaith paratoi ar y gweill i gefnogi achos busnes ar gyfer cael tyrbin gwynt yng Ngogerddan.  Os bydd yn llwyddiannus, byddai hyn yn ein gosod yn agos iawn at y targed o 30%.

4. Mae sawl uwch benodiad newydd:  Fran Carey, a aeth i'r bore strategaeth; a'r Athro Engobo Emeseh a Homagni Choudhury yn Bennaethiaid y Gyfraith a Throseddeg, a Busnes, yn y drefn honno.  Mae'r ddau yn dychwelyd i Aberystwyth ac i'r Brifysgol.

5. Rhoddwyd diweddariad ar adolygiad y gwasanaethau proffesiynol.  Fel y dywedwyd eisoes, cyhoeddodd y Brifysgol y llythyr s.188 ddiwedd mis Awst yn amlinellu gostyngiad yn nifer y swyddi ar draws y gwasanaethau proffesiynol.  Mae llai a llai o bobl yn cael eu heffeithio gan ein bod wedi parhau i edrych am gamau lliniaru trwy swyddi gwag, diswyddo gwirfoddol a chyfleoedd eraill ar draws y Brifysgol.  Mae yna unigolion o hyd mewn perygl, ond mae'r niferoedd hynny'n parhau i ostwng.  Ar wahanol gamau ymgynghori (rhai lle mae'r ailstrwythuro wedi'u cwblhau, rhai sydd newydd gau).  Mae llawer o unigolion wedi cael eu heffeithio gan hyn ar hyn o bryd.  Gan ein bod mewn ymgynghoriad ar y cyd rydym yn cyfarfod yn wythnosol gyda'r Undebau Llafur.  Mae'r trafodaethau wedi bod yn heriol ond maent yn parhau i fod yn adeiladol ac i feithrin cyswllt.  Yr adran sydd â'r nifer uchaf o bryderon ac ymholiadau hyd yma yw'r Gofrestrfa Academaidd.  Mae'n cysylltu â'r rhan fwyaf o ardaloedd y Brifysgol, felly nid yw hyn yn annisgwyl, ond mae swyddogion ar hyn o bryd yn gweithio trwy'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwnnw.  Cynigir y bydd trosolwg o'r materion sefydliadol sy'n codi o'r ymgynghoriad ar y cyd yn cael ei roi i'r Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio (Ll&Ch) a fydd yn penderfynu a oes angen uwch-gyfeirio unrhyw beth i'r Cyngor [**GWEITHRED**: Pwyllgor Ll&Ch].

6. Yn yr un modd â'r broses o symud i ddwy gyfadran, rydym yn cyflwyno rhaglen ddatblygu o gwmpas meithrin timau a ffyrdd o weithio, er mwyn cynorthwyo pobl trwy'r cyfnod hwn o newid.  Mewn rhai achosion, mae pobl yn ymateb yn fwy i newidiadau yn y ffyrdd o weithio nag ydynt i risgiau ehangach.  Yn yr un modd â'r rhaglen diswyddo gwirfoddol, bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal gyda phenaethiaid adrannau i ddeall yr effaith, cynnal archwiliadau straen ac asesu llwythi gwaith.  Nododd yr Aelodau fod yna gryn dipyn o sicrwydd fod y prosesau'n cael eu rheoli'n dda, sicrwydd a ddaeth hefyd trwy'r adborth oddi wrth yr Undebau.  Bydd y Pwyllgor Ll&Ch yn cael cyfle i edrych yn fanylach ar rai o'r pwyntiau allweddol a rhoi sicrwydd i'r Cyngor.

7. Cynhaliodd y tri Undeb Llafur ar y campws arolwg ar y cyd ddiwedd mis Mai. Roedd hyn yn gadarnhaol iawn oherwydd gofynnwyd ymlaen llaw i'r Brifysgol am farn ar gwestiynau a rhoddwyd adroddiad cryno o'r ymatebion iddi.  Bydd cynllun gweithredu yn seiliedig ar yr argymhellion yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgor Ll&Ch.  Mae'r Undebau Llafur yn pleidleisio dros weithredu diwydiannol yn genedlaethol, er nad yw hyn yn fater lleol nac yn adlewyrchu'r sefyllfa yn Aberystwyth.  Mae'r Brifysgol yn ymwybodol o newidiadau o ganlyniad i'r Bil Hawliau Cyflogaeth, ond bydd yr effaith yn dibynnu ar yr amseru.

8. Rhoddodd y Dirprwy Is-Ganghellor Ymchwil ddiweddariad ar weithgareddau ymchwil. Mae'r Brifysgol yn parhau i sicrhau amrywiaeth o gyllid grant, o grantiau mawr i symiau llai o arian gan yr heddlu, Llywodraeth Cymru a Dŵr Cymru.  Dewiswyd y nifer uchaf

Cymeradwywyd gan y Cyngor 24/11/25

erioed o academyddion i eistedd ar baneli FfRhY, gan gynnwys cadeirio paneli, sy'n dangos cydnabyddiaeth gadarnhaol.

9. Mae heriau parhaus yn gysylltiedig â Llywodraeth Cymru wrth symud materion drwy'r Senedd, megis y gyllideb yn cael ei gwrthod. Bydd hyn yn cael effaith os na chytunir arni. Felly, mae'r Prif Swyddog Ariannol wedi gofyn inni gynllunio ar gyfer digwyddiad fel hwn oherwydd byddai peidio â rhyddhau'r cyllid yn unol â'r disgwyl yn cael effaith ar ein llif arian.

10. Mae amryw o adolygiadau ac ymgynghoriadau wedi digwydd ynghylch prentisiaethau, ond ni chaniatawyd i Brifysgolion Cymru gymryd rhan yn adolygiad y Senedd, felly ni chafodd ein hadborth ar y cyd ei ystyried. Cafodd Addysg Uwch ei heithrio hefyd o gyn-ymgynghoriad Medr. Ar y cyfan, rydym yn awyddus i edrych ar brentisiaethau a'u cefnogi, ond mae'r cyfleoedd i feithrin cysylltiadau yn anodd. Cyhoeddodd llywodraeth y DU yn ddiweddar bod y targed o 50% ar gyfer addysg uwch yn cael ei ddileu gyda 75% o bobl ifanc o dan 25 oed bellach mewn prentisiaethau, AB neu AU. Gellir ystyried hyn yn fygythiad posibl ac yn gyfle.

11. Yn Lloegr, mae'r Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu yn cael ei adolygu. Nid yw Cymru yn cymryd rhan yn y Fframwaith mwyach. Mae ffioedd haenog yn cael eu hystyried yn seiliedig ar y safleoedd a bennir gan y Fframwaith, a allai fod â goblygiadau posibl a chanlyniadau anfwriadol i fyfyrwyr o Loegr sy'n dod i Gymru.

12. Mae Llywodraeth San Steffan wedi penderfynu gosod 6% o ardoll ar ffioedd rhyngwladol prifysgolion, yr amcangyfrifir y bydd yn costio £600m i'r sector. Bydd yr arian hwnnw'n cael ei sianelu tuag at grantiau cynhaliaeth i fyfyrwyr o Loegr, mewn rhai pynciau yn unig. Ni fydd yr ardoll yn berthnasol i Gymru, ar hyn o bryd o leiaf.

13. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â beth yw ein sefyllfa gyffredinol o ran tariff myfyrwyr israddedig cartref, ac a yw hyn yn cael effaith ar y math o fyfyrwyr. Nid yw'r gwaith cyfrifo wedi ei wneud eto ar y nifer presennol o fyfyrwyr sydd wedi eu derbyn, ond y llynedd, roedd ein tariff tua 122-123 ar gyfartaledd ac mae wedi bod yn debyg, i raddau helaeth, ers tro. Fe wnaethom weithredu'r un lefelau o ran graddau â'r llynedd, ond ychydig yn gynharach yn y broses, wrth gadarnhau. **[GWEITHREDU: Pennaeth Cynllunio i adrodd ar y tariffau yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Tachwedd, ar ôl i'r cyfrifiadau gael eu cwblhau ar y nifer presennol o fyfyrwyr sydd wedi'u derbyn].** Mae mwy o fyfyrwyr wedi ymuno â ni eleni ar flwyddyn sylfaen. Mae angen i ni feddwl am y cyd-destun ehangach a'r cynigion gan gystadleuwyr. Mae angen trafodaeth ynghylch ble rydyn ni'n gosod ein hunain. Rydym yn ymwybodol bod cost i ni er mwyn cael myfyrwyr i'r lefel briodol i'w helpu i lwyddo. Mae nifer ein myfyrwyr sy'n datgan anabledd hefyd yn sylweddol uwch na meincnod y sector, ac mae yna gost i'r lefelau o gymorth sydd eu hangen. Mae'r effaith ganlyniadol ar y tariffau yn dod yn heriol.

14. Cododd rhai problemau technegol yn ystod y broses glirio a gafodd eu datrys yn gyflym. Roedd problem wrth allforio data a bu oedi cyn trosglwyddo cynigion i academyddion er mwyn iddynt gael sgyrsiau yn y prynhawn. Llwyddwyd i wneud pob galwad ffôn ond nid oeddent mor amserol ag y byddem wedi dymuno. Nid chafwyd unrhyw effaith o sylwedd, ac aeth y broses Glirio yn well na'r llynedd. Nid oedd nifer y galwadau ffôn yn agos at y disgwyl, ond cafwyd gwell canlyniadau. Mae hyn yn dystiolaeth bod angen i ni newid ein meddylfryd i adlewyrchu'r ffaith nad un diwrnod yw Clirio bellach ond mae'n cynnwys y tair wythnos ar ôl diwrnod y canlyniadau. Mae ymddygiad ymgeiswyr yn newid, gydag oedi cyn gwneud penderfyniadau.

Cymeradwywyd gan y Cyngor 24/11/2025

15. Mae'r cyfadrannau newydd wedi bod ar waith ers mis. Mae'r swyddogion gweithredol newydd yn eu lle, ac yn ôl yr adroddiadau cynnar mae'r cyfarfodydd hynny wedi bod yn rhai cadarnhaol. Mae hyfforddiant a chefnogaeth yn ei le ar gyfer rolau newydd Dirprwy Is-Gangellorion Cynorthwyol y Cyfadrannau. Gwelir tystiolaeth o waith cadarnhaol iawn ar draws y Cyfadrannau dan arweiniad Dirprwy Is-Gangellorion Cynorthwyol y Cyfadrannau. Y Gofrestrfa Academaidd yw'r testun pryder yn y meysydd hyn.

NODWYD

16. Nodwyd yr adroddiad gan yr aelodau.

**8. ADRODDIAD GAN UNDEB ABERYSTWYTH**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Millie Hackett, Llywydd Undeb Aberystwyth a Nanw Maelor, Swyddog Diwylliant Cymru a Llywydd UMCA.

NODWYD

1. Diolchodd y Cadeirydd i swyddogion yr Undeb am eu hadroddiad manwl, ac am yr wybodaeth a gyflwynwyd ganddynt hwy a'u Gweithrediaeth i'r aelodau y diwrnod blaenorol.

2. Mae lefel y diddordeb yn uchel, â'r aelodaeth o Dîm Aber wedi cyrraedd 12% ar ôl yr wythnos groeso, sy'n dangos gwelliant o'i gymharu â'r un adeg y llynedd. Mae'r gweithgarwch gwirfoddol eisoes yn gryf, o ran niferoedd myfyrwyr, yr oriau o amser a roddir, ac o ran arddangos a datblygu sgiliau.

3. Cynhaliodd UMCA lawer o ddigwyddiadau yn yr Eisteddfod Genedlaethol gan gysylltu â chyn aelodau, llawer ohonynt â diddordeb yn y cynlluniau ar gyfer yr Hen Goleg. Croesawyd myfyrwyr i Bantycelyn yn ystod yr Wythnos Groeso a chynhaliwyd digwyddiadau cymdeithasol llwyddiannus ar y campws ac yn y dref. Cynhaliwyd digwyddiad i ddathlu diwylliant Cymru hefyd ar y cyd â'r Swyddog Academaidd.

4. Mae blaenoriaethau'r swyddogion yn cynnwys ailasesu, meithrin cyswllt a pherthyn, cyflogadwyedd, lles, hyrwyddo iaith a diwylliant Cymraeg, a ffocws ychwanegol ar weithio gyda'r gymuned sydd o gefndir Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.

5. Nododd yr Aelodau, fod arian wedi'i ddyrannu dros y blynyddoedd diwethaf i gwrdd â gofynion y Siarter Cydraddoldeb Hil ac i fwrw ymlaen â chynlluniau gweithredu gwrth-hiliaeth a gofynnwyd a oedd hyn yn treiddio i weithgareddau i fyfyrwyr. Cadarnhaodd swyddogion y Brifysgol mai cyllid penodol er mwyn galluogi'r Brifysgol i gynnig am wobr y Siarter oedd yr arian a gafwyd gan Medr. Fe fyddai effaith ar fyfyrwyr, gan gynnwys cynrychiolaeth mewn grwpiau, a gweithgareddau ategol fel dad-drefedigaethu'r cwricwlwm, ond nid i ariannu gweithgarwch yn uniongyrchol. Nododd yr Aelodau fod y pwyllgor Ll&Ch wedi gofyn am fwy o fanylion am y cynllun gwrth-hiliaeth felly bydd y Cyngor yn dirprwyo'r gweithgaredd hwnnw i edrych ar ddull mwy cydgysylltiedig.

**PENDERFYNWYD**

6. Ystyried pa gymorth y gallai'r Cyngor ei gynnig i Undeb Aberystwyth i gynorthwyo gydag amcanion y swyddogion [**GWEITHREDU**: Y Pwyllgor Ll&Ch].

Cymeradwywyd gan y Cyngor 24/11/2025

## 9. MATERION ARIANNOL

1. Diweddariad am y Cyfrifon Rheoli

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Simon Crick, y Prif Swyddog Ariannol (COU2526-007).

NODWYD

1. Adroddwyd sefyllfa o ddiffyg ar ddiwedd y flwyddyn sef £2.7m, £300k yn llai na'r disgwyl ac sydd hefyd yn dangos gwelliant bach ar y rhagfynegiad yn y trydydd chwarter. Mae'r archwiliad ar y gweill, felly ceir rhybudd y gallai pethau newid yn amodol ar hynny, ond nid yw'r swyddogion yn disgwyl i hynny ddigwydd.

2. Cyflawnwyd arbedion o tua £14.3 yn ystod y flwyddyn. Mae rhai o'r arbedion hynny yn rheolaidd, megis gostyngiad yn y gyllideb nwyddau traul a llai o gostau staff, ac eraill yn fesurau nad ydynt yn rheolaidd, megis gohirio'r codiad cyflog a rheoli swyddi gwag. Gofynnodd yr aelodau am gadarnhad o'r swm sy'n weddill o'r arbedion rheolaidd a'r arbedion anrheolaidd, a chafwyd cadarnhad gan y swyddogion o'r gyfran sef tua 1/3 o arbedion nad ydynt yn rheolaidd a 2/3 o arbedion rheolaidd, sydd wedi'u cynnwys yn sefyllfa 2025-26. Yn benodol, cydnabu'r aelodau arwyddocâd yr arbedion a gyflawnwyd hyd yma a'r canlyniadau o beidio a chyrraedd y targedau hynny.

3. Mae sefyllfa yr arian parod wedi gwella o flwyddyn i flwyddyn, ac mae'r Brifysgol yn dal mwy o arian parod ar ddiwedd y flwyddyn nag ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn cynnwys y £6m ychwanegol a dynnwyd i lawr o'r gronfa waddolion yr ydym yn eu dal.

4. Trafodwyd cyfamodau yn y cyfarfod diwethaf ac mae hynny bellach ar waith yn dilyn cyfarfod cadarnhaol iawn gyda'r banc ym mis Medi. Cadarnhaodd y swyddogion na allai'r archwilwyr allanol roi eu barn ynghylch yr angen i ddatgan yr hawlildiad yn y cyfrifon blynyddol, a bod trafodaethau yn parhau.

5. Nododd yr aelodau y cyfeiriad at Shapecast a gofynnwyd am eglurhad ynghylch ei rôl. Mae Shapecast wedi bod yn cynorthwyo gwaith y Weithrediaeth o ran y naw cynllun ac yn gweithio gyda pherchnogion cynlluniau i nodi'r gweithgareddau sydd angen eu cynnal, yr amseru a'r rhyng-ddibyniaethau. Bydd hyn yn rhoi'r patrwm ar gyfer y blynyddoedd nesaf. Ochr yn ochr â'r gwaith hwn datblygir y swyddfa rheoli strategaeth, a fydd yn monitro'r ddarpariaeth yn ôl y Prif Ddangosyddion Perfformiad.

6. Cydnabu'r aelodau bod yr arbedion a gyflawnwyd mewn blwyddyn yn anhygoel gan ystyried maint ein prifysgol, a bod hyn yn dweud llawer am ein diwylliant. Trafodwyd sut y gellid cynnal y newid diwylliannol hwn er mwyn osgoi gorfod gwneud arbedion effeithlonrwydd sylweddol ac ailstrwythuro unwaith eto, ac i sicrhau ein bod yn parhau i fod yn sefydliad effeithlon a chynaliadwy.

7. Yn sefydliadol, mae angen i ni gydnabod bod newid yn anochel, ac i sefydlu trefn sy'n gallu newid fel rhan normal o'i gweithrediad, gan addasu'n haws a chreu llai o aflonyddwch. Mae'r sefyllfa bresennol yn anodd gan fod llai o staff ond yr un

Cymeradwywyd gan y Cyngor 24/11/2025

faint o waith.  Fel y profwyd yn ystod y broses Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd (CGC), os na fydd y prosesau a'r ffyrdd o weithio yn newid, bydd angen mwy o staff eto.  Er mwyn cyflawni hyn bydd angen buddsoddiad yn ein seilwaith a'n pobl, ac mae hyn yn cael ei gydnabod yn y cynllun cyllid. #

8. Yn ogystal ag ystwythder a ffyrdd o weithio, mae ymddygiad hefyd yn bwysig. Mae angen meddylfryd gofalus i warchod rhag bod yn ôl yn yr un sefyllfa a rhaid bod yn glir, er gwaethaf y gwaith ardderchog sydd wedi ei wneud hyd yma, bod gennym ffordd hir i fynd eto.  Y neges bwysig yw ein bod wedi cynllunio i gadw at £3m o ddiffyg ac rydym wedi ei leihau ymhellach, i £2.7m, felly mae ein targedau'n gyraeddadwy iawn.  Mae gobaith yn bwysig i gynnal morâl y staff.

9. Gofynnodd yr aelodau i ba raddau y mae'r weledigaeth hirdymor wedi'i chyflwyno i'r staff.  Cynhaliwyd digwyddiad strategaeth ym mis Mai i nodi ein cenhadaeth a'n gwerthoedd. Daeth nifer dda i'r digwyddiad ac roedd yr adborth, at ei gilydd, yn gadarnhaol.  Nodwyd meysydd y mae angen eu gwella ac mae'r rhain wedi dylanwadu ar y digwyddiadau sydd i ddod ym mis Tachwedd. Bydd y digwyddiadau hyn yn llai o faint ac yn canolbwyntio ar y cynlluniau i gyflawni'r strategaeth, gan gynnwys y cyfle i ryngweithio â pherchnogion a chyflenwyr y cynlluniau.  Cyn mynd i'r digwyddiadau, bydd staff yn gwylio fideo byr gan yr Is-Ganghellor, yn esbonio sut mae'r cynlluniau yn cysylltu â'r strategaeth a sut y byddant yn dylanwadu ar ein cynllunio dros y blynyddoedd i ddod.

10. Soniodd yr aelodau am yr arolwg staff, a chafwyd cadarnhad y bydd hwn yn cael ei godi gan y Pwyllgor Llywodraethu a Diwylliant.  Ar hyn o bryd mae'r swyddogion yn ystyried y mathau o arolygon a'r costau cysylltiedig.  Bydd cynnig yn cael ei gyflwyno i'r Weithrediaeth a bydd hwn yn edrych ar y prif ystyriaethau o ran amseru a'r hyn yr ydym am ei gyflawni [**GWEITHREDU**:  Ei roi gerbron y Pwyllgor Llywodraethu a Diwylliant].

**PENDERFYNWYD**

11. Dymuniad y aelodau oedd cofnodi eu diolch i'r Prif Swyddog Ariannol a'r tîm, a'r Weithrediaeth, am gyrraedd y pwynt hwn ar y daith i sicrhau sefydlogrwydd ariannol.

2. <u>Incwm Dangosol</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Simon Crick, y Prif Swyddog Ariannol (COU2526-008).

NODWYD

1. Mae'r papur yn seiliedig ar niferoedd y myfyrwyr ar 1 Medi.  Rhoddwyd diweddariadau wythnosol dros yr wythnosau diwethaf, sy'n adlewyrchu natur cyfnewidiol rhai agweddau ar weithgarwch y Brifysgol, a'r cylch denu myfyrwyr parhaus.  O ran ein prif ffynhonnell incwm, rydym yn agos at ble roeddem yn disgwyl bod yn ôl yr hyn a ragfynegwyd.  Mae hyn yn gadarnhaol ac yn caniatáu inni ganolbwyntio ar gyflawni yn ystod y flwyddyn nesaf, yn hytrach nag ail-gydbwyso'r gyllideb.

Cymeradwywyd gan y Cyngor 24/11/2025

2. Er mai dyddiau cynnar yw hi, nid oes unrhyw bwysau o ran incwm mewn meysydd eraill sydd wedi'u nodi ar hyn o bryd. Ceir rhai meysydd risg ynghylch prisio a masnachu, a bydd angen monitro y rhain drwy gydol y flwyddyn.

3. Y balans pennaf i'w gael yn iawn ar gyfer y gyllideb y flwyddyn nesaf fydd y targed arbedion. [redacted] Mae'r swyddogion yn hapus bod y sefydliad ar y trywydd iawn i gyflawni'r arbedion hynny sy'n weddill.

4. Mae rhai risgiau yn bygwth y sefyllfa honno o hyd, a bydd y rhain yn cael eu hadrodd a'u rheoli trwy gydol y flwyddyn. Mae'r dyfarniad cyflog bellach wedi'i setlo ac fe'i talwyd i staff ym mis Awst. Roedd y swm yn is na'r hyn a ddarparwyd ar ei gyfer yn y gyllideb ac mae potensial i fuddsoddi'r cronfeydd hynny i alluogi rhai ennillion cyflym neu weithgareddau i gefnogi denu myfyrwyr y flwyddyn nesaf.

5. Mae'r chwyddiant cynyddol y tu allan i reolaeth y Brifysgol, a gallai hyn roi pwysau ar y cyllidebau nwyddau traul, a'r gyllideb sydd ar ddod ym mis Tachwedd. Yn gyffredinol, mae'r gyllideb sydd wedi ei gosod yn realistig ac, os caiff ei chyflawni, bydd yn caniatáu inni gyflawni'r llif arian y cytunom arni. Mae trafodaethau yn parhau ynghylch gwerthu asedau, ac mae'r rhain wedi'u cynnwys yn rhagamcanion y llif arian, ond nid y gwariant. Derbyniwyd y cyllid ychwanegol o safle Pentre Jane Morgan ym mis Medi, ac mae'r swyddogion yn gweithio trwy'r holl faterion a drafodwyd yn y cyfarfodydd blaenorol.

6. Rydym wedi tybio na fydd ffioedd dysgu yn codi oherwydd chwyddiant. Mae trafodaethau ynghylch cynnydd posibl yn mynd rhagddo o fewn llywodraeth y DU, a byddai Llywodraeth Cymru yn debygol o gytuno. Oherwydd yr ansicrwydd, nid oes cynnydd wedi'i gynnwys yn y rhagamcanion.

7. Gofynnodd yr aelodau a fyddai nifer y myfyrwyr sy'n dechrau ym mis Ionawr yn helpu i wrthbwyso'r diffyg yn y nifer sy'n dechrau ym mis Medi. Cadarnhaodd y swyddogion y byddai hwb i niferoedd y myfyrwyr ond, gyda chyllideb ar wahân ar gyfer mis Ionawr, ni fydd y nifer a dderbynnir yn ddigon i wneud iawn am y diffyg ym mis Medi.

8. Gofynnodd yr aelodau am sicrwydd ynghylch perfformiad AberOnline. Mae nifer y myfyrwyr a dderbyniwyd tua 3 mis ar ei hôl hi o'i chymharu â lle yr hoffem fod. Yn ôl y rhagamcanion tymor hwy y nod yw cyrraedd nifer cyson o 500 o fyfyrwyr, ac yn dilyn trafodaethau diweddar gyda'r partner, a chan nodi nad yw eu partner a berfformiodd waethaf wedi gostwng o dan 500, rydym yn hyderus y bydd hyn yn digwydd. Nid yw'r rhagamcanion yn cynnwys y cyrsiau yr ydym ers hynny wedi penderfynu eu symud ar-lein, megis y radd MSc Seicoleg wedi'i hachredu gan Gymdeithas Seicolegol Prydain (BPS), ac rydym yn gweithio trwy heriau o ran yr achredu hwn, a rhai cyrsiau Addysg. Rydym hefyd yn edrych ar y cwrs Nyrsio. Nid oedd yr un o'r rhain yn y gyllideb gychwynnol, felly bydd cynnydd mewn costau yn y tymor byr. [redacted]

Cymeradwywyd gan y Cyngor 24/11/2025

9. Cafwyd trafodaeth ynghylch a oes goblygiadau tymor hwy o ran cyflog a sut y bydd lefelau cyflog yn effeithio ar ymroddiad, trosiant a chynhyrchiant. Mae edrych ar feincnodi wedi bod yn rhan o adolygiadau'r gwasanaethau proffesiynol. Mae rhai meysydd yn fwy heriol nag eraill o ran atyniad, megis TG. Mae trafodaethau UCEA yn dod i ben ar radd 9 ac mae angen i ni edrych ar yr hyn sydd ar hyn o bryd yn ystod cyflog eang iawn uwchlaw hynny, sy'n creu problemau o ran denu a chadw staff. Mae'r anghydfod cyflog parhaus hefyd yn creu heriau o ran symud ymlaen wrth fynd i'r afael â materion ehangach fel cywasgu'r golofn dâl ar gyflogau is. Nododd y swyddogion fod penderfyniad bwriadol wedi'i wneud i weithredu'r dyfarniad cyflog eleni, yn hytrach na'i ohirio eto, mewn cyferbyniad â rhai prifysgolion sydd wedi gohirio am 2 flynedd yn olynol.

10. Trafododd yr aelodau y gorbenion a'r cyfraniadau ar gyfer gwahanol fyfyrwyr, ac a yw'n bosibl nodi beth yw 'gwerth' myfyriwr. Yn y sgyrsiau cynllunio, rydym yn gweithio tuag at ddatblygu targed i'r cyfraniadau ar gyfer gwahanol fathau o weithgareddau a gwahanol fathau o addysgu, ymchwil a gweithgareddau eraill. Mae gwaith yn mynd rhagddo fel rhan o'r cynllun Cyllid i ddatblygu'r modelau hynny, fel bod cyfadrannau ac adrannau yn deall ble maen nhw arni o ran y targedau. Gall sgyrsiau ddigwydd ar draws y Weithrediaeth er mwyn dod yn fwy cyfarwydd a chael gwell dealltwriaeth ac i'n galluogi i ymgorffori hyn yn y ffordd rydym yn gweithio ac yn cynllunio. Ochr yn ochr â hyn mae'r gwaith i sicrhau ein bod yn deall gwir gost yr hyn a wnawn, megis rhedeg y ffermydd neu Ganolfan y Celfyddydau, a sut mae hynny'n cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau posibl yn unol â'n huchelgeisiau strategol. Mae gwahanol fodelau cyflawni hefyd yn cael eu hystyried a sut y gallent wneud gwell defnydd o'n hasedau a'n cyfleusterau.

**PENDERFYNWYD**

11. Nodwyd yr adroddiad gan yr aelodau.

3. <u>Dangosyddion Perfformiad Allweddol</u>

NODWYD

1. Nododd yr aelodau fod gan bob un o'r naw cynllun, fel y'u cyflwynwyd yn ystod sesiwn friffio'r bore, eu Dangosyddion Perfformiad Allweddol cysylltiedig sy'n ddangosyddion llwyddiant yn strategol. Cytunwyd y byddai'r rhain yn fan cychwyn da i'r Cyngor.

2. Dylai'r cynlluniau a'u Dangosyddion fwydo i bwyllgorau perthnasol, a rhai yn cael eu huwch-gyfeirio i'r Cyngor. Efallai hefyd y bydd meysydd nad ydynt wedi'u cynnwys yn benodol yn y cynlluniau, ond sy'n cael eu hystyried yn bwysig i'r Cyngor. Enghraifft o hyn fyddai'r pileri llywodraethu o sesiwn friffio'r bore. **[GWEITHREDU:** Cadeiryddion y pwyllgorau i gymryd y cwestiynau llywodraethu o'r sesiwn friffio i nodi pa dystiolaeth yr ydym ei heisiau er mwyn cyrraedd y lefel honno o sicrwydd.]

3. Trafodwyd pwrpas y Dangosyddion, a bod set o Ddangosyddion cyflawni ar gael sy'n mesur cyflawniad ac effaith y cynlluniau ond hefyd ceir set o Ddangosyddion sy'n mynd i'r afael â'r cwestiwn o sicrwydd ar lefel bwrdd. Soniwyd am y posibilrwydd o ddefnyddio dull cerdyn sgorio cytbwys, gyda gwybodaeth am rai dangosyddion cyflawni yn dod o'r Weithrediaeth i'r is-bwyllgorau, a gall yr is-

Cymeradwywyd gan y Cyngor 24/11/2025

bwyllgorau godi pryderon neu faterion gyda'r Cygnor yn ôl yr angen ynghylch cynnydd wrth gyflawni'r cynlluniau.

4. Trafododd yr aelodau yr egwyddorion a ddylai fod yn sail i'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol, gan gynnwys y bwriad i edrych ar bethau yn eu crynswth cyn belled ag y bo modd. Dangosyddion Perfformiad Allweddol ein sefydliad 'ni' yw'r rhain a dylid eu hailddefnyddio gan y Cyngor, gan fonitro'r hyn sydd ei angen ar gyfer sicrwydd yn unig. Trafodwyd hefyd yr anawsterau ynghlwm wrth fesur rhywbeth sy'n gyfan gwbl allan o'n rheolaeth, megis tablau cynghrair, oherwydd gall mesur fod yn amrywiol ac yn gyfnewidiol a gall fod o bwys i farchnadoedd penodol yn unig. Mae'n bwysig mesur effaith yn hytrach na maint, gan gydnabod y gallai fod cyfyngiadau ar y data sydd ar gael i ni. Felly, beth sydd ar gael i ni, a sut y gall hynny ddiwallu ein hanghenion heb faich ychwanegol.

5. Gwnaed awgrymiadau i edrych ar Ddangosyddion sydd ddim yn statig, ond sy'n esblygu ar sail yr hyn yr ydym yn disgwyl eu hwynebu ar wahanol adegau o'r flwyddyn, megis denu myfyrwyr neu gadw myfyrwyr; yn ogystal â'r posibilrwydd o osod ystod dderbyniol, yn hytrach na'r rhif sengl traddodiadol. 

**PENDERFYNWYD**

6. Dechrau trafodaethau cychwynnol yng nghyfarfod y Cadeiryddion.

**10. YR HEN GOLEG**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Athro Anwen Jones, Dirprwy Is-Ganghellor Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr a Jim O'Rourke, Swyddog Prosiect (COU2526-009).

NODWYD

1. Y penderfyniad a wnaed gan y Weithrediaeth ynghylch y model ariannol ar gyfer cam cyntaf yr elfen lletygarwch a hamdden yng nghyfnod gweithredol y gwaith ar yr Hen Goleg.

2. Y nod, ym mis Tachwedd, yw rhoi syniad sydd mor glir â phosibl o'r arian sydd ar gael ar gyfer cwblhau'r gwaith adeiladu. **[GWEITHREDU:** Anwen i gyflwyno gwybodaeth i'r Cyngor ym mis Tachwedd am heriau allweddol y prosiect, a sut olwg fydd ar y cynnyrch terfynol, gan ddangos sut mae'r gwahanol weithgareddau, y lleoedd a'r cynulleidfaoedd yn cyd-fynd â'i gilydd.]

3. Lluniodd y penseiri bapur opsiynau i'w ystyried gan y Weithrediaeth, yn dangos ffyrdd o gynyddu nifer yr ystafelloedd gwely. [redacted] Nodwyd unwaith eto yr ymrwymiad i ddatblygu Prosiect Cambria, sydd yn darparu'r potensial ar gyfer 34 o ystafelloedd gwely ychwanegol yn unol â'r cynlluniau. Mae trafodaethau'n parhau gyda'r partner gwesty ynghylch cynllunio ar gyfer cyflawni'r Cambria, gydag amserlen o tua 3 blynedd.

Cymeradwywyd gan y Cyngor 24/11/2025

4. Trafododd yr aelodau y £2m o gyllid ychwanegol oddi wrth Lywodraeth Cymru, gan holi p'un a yw hyn yn arian ychwanegol ar gyfer gweithgarwch yr ydym eisoes wedi ymrwymo iddo, neu a yw'n dod â rhwymedigaethau pellach. Mae'r swyddogion yn fodlon ei fod yn ein galluogi i symud ymlaen gyda chyn lleied o newid â phosibl tra'n elwa ar fwy o gyfraniad, ac nad oes disgwyliadau beichus.

5. Cydnabu'r swyddogion fod cyfnod anodd o'n blaenau ac, er ein bod yn teimlo'n ffyddiog bod y risgiau o dan ein rheolaeth, mae'r risgiau'n cynyddu a byddant yn parhau i wneud hynny am y 12-18 mis nesaf.

6. Gofynnodd yr aelodau am gael syniad o'r mathau o risgiau a ragwelir. Rhoddwyd arwydd o hyn gan y swyddogion gan nodi y dylid ystyried y rhain yn erbyn cefndir rheoli risg llwyddiannus hyd yn hyn. [redacted]

7. Mae angen deall y swm ar gyfer dodrefnu/gosod offer yn yr adeilad. [redacted]

8. Dywedodd yr aelodau, er y gallai'r prosiect fod yn rhywbeth oedd yn dargyfeirio sylw'r Weithrediaeth a'i fod yn cael effaith gyffredinol ar adnoddau, megis y llif arian a chaffael, mae'r prosiect a'i gyflawni'n llwyddiannus hefyd yn darparu cyfleoedd sylweddol.

9. O ystyried y cymhlethdod a'r ddwy elfen sef y gwaith adeiladu a'r gwaith gweithredu, gofynnodd yr aelodau a oedd gan y Dirprwy Is-Ganghellor gynghorwyr addas yn fewnol a/neu'n allanol. Mae seilwaith da i'r prosiect adeiladu, gan gynnwys cyfreithwyr, penseiri, a gwasanaethau adeiladu; ac mae cefnogaeth y Cyfarwyddwr Ystadau Dros Dro wedi bod yn amhrisiadwy. Byddai wedi bod yn fuddiol cael partner gwesty i ymuno â'r prosiect yn gynharach, ond maen nhw bellach yn darparu'r cyngor cywir. Efallai y byddai'n ddefnyddiol ailymweld â'r maes hwn ar ôl y briffio ym mis Tachwedd.

10. Er mwyn codi ymwybyddiaeth, ydyn ni wedi ystyried gwahodd cwmni teledu i'r adeilad? Mae hyn wedi'i drafod ond ni ystyriwyd hyn yn briodol yn ystod y cyfnod adeiladu, ond mae'n sicr yn syniad da ar gyfer y dyfodol, ar ôl cwblhau'r gwaith. Nododd yr aelodau fod y cynnydd diweddar mewn gweithgarwch ar y cyfryngau cymdeithasol yn

gadarnhaol ac yn dal diddordeb, gan ganolbwyntio ar ansawdd y crefftwaith a thynnu sylw at gymhlethdod y prosiect.

11. Gofynnodd yr Aelodau am sicrwydd, os yw'r adeilad am gael ei gynnwys fwyfwy ym musnes y brifysgol o ddydd i ddydd, y gellir parhau i gyflawni uchelgais yr Hen Goleg ar ôl yr adolygiad ar y gwasanaethau proffesiynol. Cadarnhaodd y swyddogion fod ystyriaeth yn cael ei roi i strwythurau a staffio. Mae sgyrsiau wedi dechrau i drafod syniadau ynghylch integreiddio yr hyn rydyn ni'n ei gynnig o ran diwylliant a'r celfyddydau rhwng yr Hen Goleg a Chanolfan y Celfyddydau a'i grŵp cynghori.

**PENDERFYNWYD**

12. Nodwyd yr adroddiad gan yr aelodau

**Gadawodd yr Athro Anwen Jones y cyfarfod**

## 11. MATERION LLYWODRAETHU

1. <u>Adroddiad Blynyddol ar gyfrifoldebau aelodau'r Cyngor</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg (COU2526-010).

NODWYD

1. Yr adroddiad, sy'n atgoffa aelodau'r Cyngor o'u cyfrifoldebau fel llywodraethwyr ac ymddiriedolwyr y Brifysgol, gyda phwyslais arbennig ar ofynion y Cyngor Cyllido.

**PENDERFYNWYD**

2. Nododd yr Aelodau yr adroddiad ac roeddent yn fodlon â'r cyfrifoldebau.

## 12. Y GOFRESTR RISG GORFFORAETHOL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Helen Eustace, Pennaeth Cynllunio, a Sarah Taylor, Pennaeth Datblygu Strategol (COU2526-011)

NODWYD

1. Yn dilyn trafodaethau'r pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd, mae Gweithrediaeth y Brifysgol wedi cynnig dull diwygiedig o reoli risg, sy'n rhoi ffocws strategol ar risg sefydliadol a ffocws gweithredol ar risgiau cyflenwi. Mae'n alinio rheoli risg ar lefel strategol ac yn cyd-fynd â chynlluniau'r brifysgol. Mae'n adlewyrchu'r farn bresennol ar risg strategol lefel uchel a gobeithio ei fod yn rhoi sicrwydd ynghylch y ffocws ar y risgiau lefel uchel hynny a'r camau gweithredu a'r rheolaethau sydd ar waith yn eu

Cymeradwywyd gan y Cyngor 24/11/2025

herbyn. Prif reolaeth y camau gweithredu fydd y cynlluniau a chyflawni’r cynlluniau, a byddant yn rhan o'r cylch adrodd rheolaidd.

2. Y bwriad yw y bydd y gofrestr yn rhoi darlun esblygol, ac y dylai newid, gan gynnwys unrhyw risgiau sydd ar radar y Brifysgol, ac na ddylai'r pwyslais fod ar nifer y risgiau. Nodwyd bod yr Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd diweddar wedi cael trafodaeth ynglŷn â'r Hen Goleg a'r lefel briodol o risg, ac roedd yn amlwg, gyda llai o risgiau i’w harchwilio’n drylwyr, ei bod yn llawer haws ei wneud yn iawn.

3. Wrth edrych i’r dyfodol, mae angen i ni ystyried fframwaith lle mae pwyllgorau yn cymryd rhan mewn archwiliadau dwfn i rai risgiau. Er y bydd y Pwyllgor Archwilio Risg a Sicrwydd yn cadw goruchwyliaeth gyffredinol, bydd yn llywio sut mae pwyllgorau eraill yn ymgymryd â risgiau perthnasol. **[GWEITHREDU:** Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio Risg a Sicrwydd i fynd â syniadau’r Weithrediaeth i gyfarfod y Cadeiryddion cyn i argymhelliad ffurfiol gael ei gyflwyno.]

4. Cynhaliwyd trafodaeth ynglŷn â seiberddiogelwch, gan fesur ein sefyllfa ar hyn o bryd, gyda'r risg ddwbl o ymosodiad ar y safle, neu ymosodiad hacio uniongyrchol. Pa mor barod ydym ni i ymateb? Rhoddir adroddiadau rheolaidd i'r Weithrediaeth ynglŷn â’r gweithgarwch a'n hymateb. Mae hyn wedi bod yn gadarnhaol. Mae yna newidiadau strategol a ddylai leihau ein risg neu ddarparu mwy o sicrwydd ynghylch y risg honno. Ein sefyllfa, o’i chymharu ag eraill tebyg, yw ein bod mewn sefyllfa dda. Gofynnodd yr aelodau, yng nghyd-destun seibrddiogelwch, a oedd meincnodi yn erbyn sefydliadau AU eraill yn ffordd dda o fesur, a hefyd sut y byddwn yn gwybod ein bod wedi llwyddo i gyrraedd safle 'dda'? Mae achrediadau perthnasol i’r diwydiant yn opsiwn, ac mae hyn yn rhan o waith y cynllun Seilwaith yn ogystal ag adolygiad y GTG.

5. Trafododd yr aelodau y ffaith nad oes dyddiad targed ar gyfer lliniaru'r risg a chyflawni'r camau gweithredu, er bod sgôr targed wedi'i chynnwys. Y teimlad oedd mai'r dyddiad targed o ran y camau gweithredu yw'r flaenoriaeth a’i fod yn haws i’w fesur.

6. Cafwyd trafodaethau ynghylch parodrwydd i dderbyn risg. Efallai bod ein parodrwydd i dderbyn risg yn uwch nag sy'n cael ei adlewyrchu yn y gofrestr oherwydd ein bod yn goddef risg am gyfnod mor hir o amser. Mae’n bosib y gallwn roi llawer o fesurau ar waith i liniaru risg, ond mae’r risg sylfaenol i’r sefydliad o hyd yn uchel. Mae'r penderfyniad hwnnw wedi'i dderbyn ac felly mae ein parodrwydd yn uwch nag a nodwyd.

7. Craffodd yr aelodau ar y ffaith nad oedd risg iechyd a diogelwch a chydymffurfiaeth â rheoliadau tân yn ymddangos ar Gofrestr Risg y Brifysgol gan holi sut mae risgiau o'r fath yn wahanol i'r rhai sydd wedi eu cynnwys. Cyfeiriwyd pryder y Pwyllgor Archwilio Risg a Sicrwydd ynghylch yr adroddiadau archwilio iechyd a diogelwch at y Cadeiryddion er mwyn iddynt sicrhau bod y pwyllgor perthnasol yn cymryd cyfrifoldeb amdano. Sicrhawyd y pwyllgor bod trafodaethau yn digwydd a oedd yn dangos strwythur systematig a phroses feddwl nad oedd yn weladwy yn yr archwiliad. Mae sgyrsiau yn digwydd ar draws gwahanol bwyllgorau, sy'n rhoi sicrwydd, ond efallai bod bwlch wrth gofnodi hyn. Mae angen i ni fod yn glir nad yw absenoldeb risg ar Gofrestr Risg y Brifysgol yn golygu nad yw'n bodoli ac nad yw'n cael ei reoli, trwy gofrestr risg adrannol. Yn achos iechyd a diogelwch, bydd adroddiadau archwilio mewnol yn parhau i fwydo drwodd i'r Pwyllgor Llywodraethu a Diwylliant fel y maent wedi gwneud o'r blaen.

**PENDERFYNWYD**

Cymeradwywyd gan y Cyngor 24/11/2025

8. Trafod sicrwydd ynghylch risgiau iechyd a diogelwch yng nghyfarfod y Cadeiryddion ac o fewn y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd a'r Pwyllgor Llywodraethu a Diwylliant [**GWEITHREDU**: Yr Adran Llywodraethu]

9. Mynd â'r cwestiwn: a ddylai risg iechyd a diogelwch fod ar Gofrestr Risg y Brifysgol, i'r Weithrediaeth i'w drafod [**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol].

## 13. DOGFENNAU WEDI'U SELIO Â'R SÊL GYFFREDIN

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Helen Davies, Swyddog Llywodraethu (COU2526-012)

**NODWYD**

Nododd yr aelodau y ddwy ddogfen yr oedd y sêl wedi'i gosod arnynt ers y cyfarfod diwethaf, sef y cytundeb gyda Chawton House ac USS, a'r weithred CPAPA.

## 14. UNRHYW FATER ARALL, AROLWG O'R CYFARFOD, A MATERION YN Y DYFODOL

Adroddodd y swyddogion fod y Brifysgol wedi tendro i gymryd drosodd y ddarpariaeth Dysgu Cymraeg ym Mro Morgannwg, a bod y cais yn llwyddiannus. Mae hyn yn cyd-fynd yn dda ag amcanion strategol y Brifysgol a chafwyd adborth da iawn gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, sy'n arwydd cadarnhaol cyn sefydlu'r Athrofa yn 2027.

Cynigiodd yr aelodau eu llongyfarchiadau gan nodi fod y model yn adlewyrchu amcanion y Brifysgol yn union o ran amrywiaeth y ddarpariaeth.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 24 Tachwedd 2025.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.50yp.

Cymeradwywyd gan y Cyngor 24/11/2025